# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyngor Cymuned Llandderfel

Nos Fawrth, Tachwedd 7fed 2023 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Mynach.

Presennol: Eifion Davies (cadeirydd), Bethan Thomas, Rita Jones, Eilir Rowlands, Gary Thomas, Alwyn Jones, Gwenda Morris, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.
Ymddiheuriadau:, Iolo Evans, Gwenda Evans a Dewi Pritchard.

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Hydref 3ydd 2023) **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant – **Dim.**

iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.
a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
b) Cais ariannol Cronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog – gwelliannau i'r mynwentydd. **Cafwyd diweddariad gan y clerc a chadarnhad fod cais wedi cael ei gyflwyno.**

iv) Gohebiaeth
a) Fferm Wynt Gaerwen.
i) Diweddariad.
ii) Gwahoddiad i gyfarfod anffurfiol i drafod cronfa fuddsoddi gymunedol **– cytunwyd i anfon dau cynrychiolydd.**

b) Partneriaeth Penllyn.
i) Costau torri llwybrau - **oherwydd toriadau yn y swm a dderbyniwyd gan Gyngor Gwynedd ar gyfer torri llwybrau troed yr ardal a'r cynydd yn y costau o wneud y gwaith roedd arian tu cefn y Bartneriaeth yn lleihau bob blwyddyn. Derbyniwyd cais yn gofyn am arian tuag y golled a wnaed eleni ac yna ar gyfer 2024-25. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i gyfrannu £100 eleni a holi pa lwybrau oedd yn ofynol i'r Bartneriaeth ei dorri fel rhan o'r cytundeb a Chyngor Gwynedd cyn penderfynu cynnwys y gost yn gyllideb 2024-25.**

c) Cyngor Gwynedd.
i) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd – Tachwedd 2023.

ch) Amrywiol.
i) Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – adroddiad blynyddol drafft.
ii) Dwr Cymru yn Llyn Celyn – gwahoddiad i sesiwn friffio 30/11/23. **Cytunodd Alwyn Jones fynychu ar ran y Cyngor.**
iii) Traffig Cymru – hysbysiad o waith ar gyfer yr A494, Cefnddwysarn i Sarnau.
iv) Llywodraeth Cymru – adolygiad o iechyd democrataidd yn y sector cynghorau cymuned a thref.
v) Mabon ap Gwynfor – gwahoddiad i gyfarfod, 14/12/23, i drafod newidiadau i'r gwasanaeth bws T3. **Cytunwyd i fynychu'r cyfarfod.**

v) Ceisiadau Cynllunio
a) C23/0795/04/RA – Rhyddhau amod 4 o gais ar gais blaenorol. Cyn-doiledau Cyhoeddus a Thir Cyfagos, Llandderfel.
b) NP5/63/57E - Cais ôl-weithredol i osod un pod ar gyfer defnydd llety gwyliau.Tŷ Nant, Capel Celyn.
c) C23/0864/04/LL - Adeiladu annedd amaethyddol newydd (ail-gyflwyniad).Parc Y Derw Goed, Llandderfel,
**Nid oedd gan y cynghorwyr unrhyw wrthwynebiad i geisiadau Toiledau Llandderfel a Pharc Y Derw Goed ond cynghorwyd fod y cais Tŷ Nant yn mynd yn erbyn polisiau'r Parc Cenedlaethol.**

vi) Materion Ariannol.
a) Derbyniadau – grant Cronfa Gymunedol Parc Cenedlaethol Eryri.
b) Taliadau – D Emyr (llwybr mynwent Frongoch). **Cymeradwywyd.**
c) Ceisiadau ariannol – Ambiwlans Awyr Cymru, Theatr Bara Caws - **cytunwyd i'w drafod gyda gweddill o'r ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.**

vii) Materion lleol.
**a) Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.**
b) Cais am gefnogaeth i gael diffib i bentref Llanfor **- derbyniwyd llythyr yn egluro bwriad y gymuned i brynu diffib i'r pentref. Gofynnwyd a byddai'r Cyngor Cymuned yn gallu eu cynorthwyo i adhawlio'r TAW ac ychwanegu'r offer i bolisi yswiriant y Cyngor. Cytunwyd yn unfrydol i wneud hyn fel a wnaed gyda ceisiadadau eraill yn y gorffennol.**

**CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH RHAGFYR 12FED YN NEUADD MYNACH.**